



O BRESWYLF EYDDI DŶ PREIFAT



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Bywyd Campws
Campus Life



Swansea
University
Prifysgol
Abertawe

Estates and Campus Services
Ystadau a Gwasanaethau Campws



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

CROESO I'CH CARTREF NEWYDD!

Mae symud o neuaddau preswyl i lety preifat yn gam cyffrous – dyma'ch cyfle i greu eich gofod eich hun, i fyw'n fwy annibynnol ac archwilio agwedd newydd ar fywyd myfyriwr! P'un a ydych chi'n symud i mewn gyda ffrindiau neu newydd gwrdd â'ch cyd-breswylwyr, mae'n garreg filltir fawr sy'n dod â mathau newydd o ryddid, chyfrifoldebau a phrofiadau.

Ond peidiwch â phoeni - dydych chi ddim ar eich pen eich hun! Mae'r llyfryn hwn, O Breswylfeydd i Dŷ Preifat wedi'i lunio i sicrhau bod y symud mor rhwydd a didrafferth â phosibl. O drefnu i dalu biliau a rheoli gwastraff i ddeall hawliau tenantiaid a chadw'ch cartref yn ddiogel, mae'n cynnwys popeth bydd angen i chi ei wybod.

Mae hefyd yn cynnig awgrymiadau gan fyfyrwyr eraill, cysylltiadau defnyddiol a chyngor ymarferol i'ch helpu i ymgartrefu a dod yn rhan o'r gymuned leol.

Felly, anadlwch yn ddwfn, teimlwch y cyffro a gadewch i ni ddechrau gwneud eich tŷ newydd yn gartref!

Cynnwys

 Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu

 Rheoli Sŵn

 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

 Cludiant Cynaliadwy yn Abertawe

 Diogelwch Personol a Diogelwch y Cartref

 Rhoi Gwybod am Broblemau i Gyngor Abertawe a'r Heddlu

 Hawliau a Chyfrifoldebau Tenantiaid

 Gwasanaethau Cymorth a Lles Myfyrrwyr




 Profiadau Myfyrrwyr: Cyngor gan Gyn-denantiaid

 Rhestr Wirio Symud i mewn




RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Mae ailgylchu yn helpu i leihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, yn lleihau allyriadau tŷ gwydr ac yn arbed adnoddau. Mae cyfraddau ailgylchu Abertawe gyda'r rhai uchaf yn y byd - gadewch i ni barhau â'r gwaith da!




Rheolau Cael Gwared â Gwastraff

-  Gallwch ailgylchu'r rhan fwyaf o'ch gwastraff cartref ar ymyl y ffordd, gan gynnwys gwastraff bwyd, papur, cardbord, poteli, tybiau a hambyrddau plastig, caniau a thuniau metel a photeli a jariau gwydr (darllenwch y canllaw isod am fanylion).
-  Bagiau Du (gwastraff nad oes modd ei ailgylchu - Uchafswm o 3 bag fesul eiddo fesul casgliad unwaith y pythefnos; gallech gael dirwy drwy roi mwy na 3 bag allan).
-  Biniau Gwastraff Bwyd - Rhowch eich holl wastraff bwyd yn y blwch bwyd gwyrdd.

Casgliadau ac Osgoi Dirwyon:

-  Gwiriwch eich diwrnod a'ch wythnos casglu a rhowch y bagiau allan ar ôl 7pm ar y noson cyn eich diwrnod casglu.
-  Ni fydd gwastraff anghywir yn cael ei gasglu. Os nad yw'ch bagiau'n cael eu casglu, dewch â nhw i mewn i'r tŷ i'w storio neu i ail-ddidoli'r cynnwys erbyn y casgliad nesaf.
-  Peidiwch byth â gadael gwastraff allan ar ôl y diwrnod casglu - gallai bagiau heb eu casglu gael eu symud gan dîm glanhau strydoedd y Cyngor, a gallech chi gael cosb benodedig o £100.

Gair i Gall am Reoli Gwastraff:

-  Cadwch finiau gwahanol yn y tŷ i wneud didoli'r cynnwys yn haws.
-  Gwasgwch gardbord yn wastad a golchwch gynwysyddion cyn eu hailgylchu.
-  Os ydych yn ansicr ble i roi rhywbeth, edrychwch ar ganllaw ailgylchu Cyngor Abertawe.

Angen Rhagor o Fagiau Ailgylchu?

Maen nhw ar gael am ddim o dderbynfa Tŷ Fulton ar Gampws Singleton neu MyUniHub ar Gampws y Bae, neu siopau lleol.

Darllenwch y rhestr lawn [yma](#).

Beth i'w Roi ym Mha Fag?

Wythnos Werdd			Papur a cardbord gyda'i gilydd
	SACHAU AR WAHÂN		
			Metel, Gwydr a Ffoil gyda'i gilydd
3 YN UNIG			
	NAWR AR WYTHNOS WERDD		
Wythnos Binc			Potiau, tybiau, hambyrddau a photeli plastig
Bob Wythnos			Gwastraff bwyd
		Gwastraff Swmpus: Evch i'r ganolfan ailgylchu neu archebwch casgliad swmpus	



Dydd Mercher yw'r diwrnod casglu yn Brynmill, Mount Pleasant a Sandfields. Mae rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gael ar wefan Cyngor Abertawe.

LLYGREDD SŴN

Mae rheoli sŵn yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd byw hapus a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'ch cymdogion. Gall sŵn gormodol arwain at gwynion a chanlyniadau cyfreithiol posib.

Awgrymiadau i Atal Aflonyddwch Sŵn:



Cerddoriaeth, Teledu a Gemau Cyfrifiadur

Cadwch y sŵn ar lefel resymol, yn enwedig gyda'r hwyr.

Defnyddiwch glustffonau os ydych chi'n chwarae gêm neu'n gwylio ffilm yn hwyr gyda'r nos. Peidiwch â gosod seinyddion yn erbyn waliau a rennir - mae sŵn yn teithio'n rhwydd drwy waliau tenau.



Partïon a Gwahodd Ffrindiau Draw

Rhowch wybod ymlaen llaw i'ch cymdogion os ydych chi'n gwahodd ffrindiau draw.

Cadwch lefel y gerddoriaeth a'r lleisiau i lawr.

Os ydych chi'n cynnal parti, ewch i mewn i'r tŷ erbyn canol nos i leihau aflonyddwch sŵn yn yr awyr agored.



Cyrraedd Adre'n Hwyr? Byddwch yn Dawel!

Caewch y drysau'n dawel - peidiwch â'u cau â chlec.

Cadwch eich lleisiau i lawr wrth fynd i mewn i'ch tŷ neu wrth gerdded drwy ardaloedd preswyl.

Os ydych chi'n gadael tacsï, peidiwch â pharhau i sgwrsio ar stepen y drws - ewch i mewn i'r tŷ yn dawel.



Dyfeisiau a Sŵn Arall

Peidiwch â defnyddio'r peiriant golchi, y peiriant sychu neu'r sugnwr llwch yn hwyr gyda'r nos.

Os ydych chi'n canu offeryn, ceisiwch ymarfer yn ystod y dydd, pan fydd yn tarfu llai.



Sŵn Anifeiliaid Anwes (os oes un gennych chi!)

Os oes gennych anifail anwes, gwnewch yn siŵr nad yw'n tarfu ar y cymdogion - mae cŵn sy'n cyfarth yn hwyr gyda'r nos yn gŵyn gyffredin.



Drwy fod yn ymwybodol o lefelau'ch sŵn, rydych chi'n helpu i greu cymuned myfyrwyr fwy cadarnhaol a pharchus. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i chi'ch hun: A fyddwn i'n hapus gyda'r lefel hon o sŵn pe bai darlith gen i yn gynnar yn y bore?

Os oes gennych Broblemau gyda Sŵn

- ✓ Siaradwch â'ch Cymdogion yn Gyntaf - mae'n bosib nad ydynt yn sylwi eu bod yn tarfu arnoch. Yn aml gall sgwrs gwrtais ddatrys y broblem.
- ✓ Cadwch Gofnod - os bydd y sŵn yn parhau, nodwch y dyddiadau a'r amserau.
- ✓ Rhowch Wybod i'r Cyngor - Os bydd y broblem yn parhau, cysylltwch â Thîm Cwynion Sŵn Cyngor Abertawe am weithredu pellach.

Beth sy'n Digwydd os ydych chi'n Gwneud Gormod o Sŵn?

- ✓ Os bydd eich cymdogion yn cwyno am sŵn gormodol, gall y Cyngor ymchwilio a rhoi Rhybudd Lleihau Sŵn.
- ✓ Os ydych yn anwybyddu'r rhybudd, gallech chi gael dirwy a gallai'r cyfarpar sy'n gwneud sŵn (seinyddion, consolau gemio, teledu) gael eu cymryd oddi wrthyh.
- ✓ Os bydd y broblem yn parhau, gallai arwain at weithredu cyfreithiol a chofnod troseddol.

MYFYRWYR DIOGEL

Nod Myfyrwyr Diogel yw darparu cyngor ar atal troseddu, diogelwch a chyngor cyffredinol i'r holl

fyfyrwyr mewn prifysgolion ledled de Cymru.

Mae Myfyrwyr Diogel yn brosiect cydweithredol rhwng Heddlu De Cymru a phob prifysgol yn ne Cymru (Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru (Trefforest a'r Atriwm), Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant).

Swyddogion Cyswllt â Myfyrwyr:

Swyddogion Cyswllt Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yw:



PC Emma Warner-Brindley

☎ 0779197037

✉ emma.warner-brindley@south-wales.police.uk

📷 @EmmaUniCop

✉ SNPTUniversityLiaisonTeam@south-wales.police.uk



PCSO Clive Dainton

☎ 07805301691

✉ clive.dainton@south-wales.police.uk

Mae Swyddogion Cyswllt Myfyrwyr dynodedig wrth law i'ch helpu i ymgartrefu ar eich campws newydd ac i roi i chi'r wybodaeth sydd ei hangen i'ch cadw'ch hunan a'ch ffrindiau yn ddiogel.

Rhagor o gyngor ar:



Mae de Cymru'n un o'r lleoedd mwyaf diogel i astudio yn y DU ac rydym am sicrhau bod hynny'n parhau. Felly, gallwch chi gadw'n ddiogel, chwarae'n ddiogel ac astudio'n ddiogel drwy gymryd cyngor Heddlu De Cymru.



BYDDWCH YN DDIOGEL

Mae menter Myfyrwyr Diogel yma i'ch helpu i gadw'n ddiogel, ar y campws ac oddi arno. Mae Heddlu De Cymru'n gweithio gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ddarparu cyngor ac adnoddau ymarferol i'ch cadw'n ddiogel. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

Rhowch wybod amdano

Math o flacmel ar-lein gan ddefnyddio cynnwys preifat a rhywiol yw blacmel rhywiol, neu 'sextortion'

Peidiwch byth â thalu, codwch eich llais

Always report it

Sextortion is online blackmailing using private and sexual content

Never pay up, always speak out

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Byddwch yn effro i sbeicio

Os ydych chi'n credu eich bod wedi cael eich sbeicio, dylech gael gymorth ar unwaith

Byddwn yn gwrandao ac yn eich cymryd o ddifrif

Be spike aware

If you think you have been spiked, seek help straight away

We will listen and take you seriously

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Peidiwch â'i gwneud hi'n hawdd i ladron

Cadwch eich beic wedi'i storio o'r golwg a defnyddiwch glo D

Cofrestrwch eich beic ar www.bikeregister.com

Don't give thieves an easy ride

Always keep your bike stored out of sight and use a D lock

Register your bike at www.bikeregister.com

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Mynd allan heno?

Arhoswch gyda'ch ffrindiau a chynlluniwch eich taith adref

Going out tonight?

Stay with your friends and plan your journey home

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Clowch eich eiddo. Cuddiwch eich eiddo. Cadwch eich eiddo.

Mae tai myfyrwyr yn un o brif dargedau lladron

Lock it. Hide it. Keep it.

Student houses are prime targets for burglars

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Na yw na

Trais yw rhyw heb gydsyniad

Sicrhewch fod unrhyw un sy'n cymryd rhan yn gyfforddus bob amser

No means no

Sex without consent is rape

Always make sure anyone involved is comfortable

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Dywedwch na i gyffuriau

Os cynigir taliad neu roddion i chi ddsbarthu cyffuriau, dywedwch na bob amser

Say no to drugs

If you are offered drugs or payment/gifts to deliver them, always say no

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



Mae'r hyn sy'n mynd ar-lein yn aros ar-lein

Meddyliwch cyn rhannu

What goes online, stays online

Think before you post

YN EICH HELPU I GADW'N DDIOGEL
HELPING TO KEEP YOU SAFE

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

University of Wales & Trinity
South Wales

Os nad ydych chi'n gwybod sut i helpu, cliciwch ym [yma](#)



YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gweithredoedd sy'n achosi aflonyddu, ofn neu ofid i eraill. Fel myfyrwyr, mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o sut gall mathau penodol o ymddygiad effeithio ar y gymuned ac ymdrechu i gyd-fyw'n gadarnhaol gyda'n cymdogion.

Enghreiffiau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:



Aflonyddwch Sŵn: Gall cerddoriaeth, partïon neu gynulliadau swnllyd, yn enwedig gyda'r hwyr, darfu ar heddwch cymdogion.



Sbwriel: Mae cael gwared ar wastraff yn amhriodol, gan gynnwys gadael bagiau sbwriel allan y tu allan i'r amserau casglu dynodedig, yn cyfrannu at ddirywiad yn yr amgylchedd



Fandaliaeth: Mae graffiti neu ddifrod bwriadol i eiddo yn effeithio ar estheteg a diogelwch y gymuned.



Meddwi'n Gyhoeddus: Gall ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu mewn mannau cyhoeddus yn sgîl yfed gormod o alcohol achosi anghysur ac ofn ymhlith preswylwyr.

Mesurau Ataliol:



Byddwch yn Ystyriol: Cadwch lefelau sŵn yn isel, yn enwedig gyda'r hwyr, a rhowch wybod i'ch cymdogion os ydych chi'n bwriadu cynnal parti.



Rheoli Gwastraff yn Briodol: Dilynwch ganllawiau lleol ar gael gwared â gwastraff ac ailgylchu er mwyn cynnal glendid.



Parchu Eiddo: Dylech drin eiddo personol a chymunedol â gofal i ddiogelu amgylchedd y gymuned.



Yfed yn Gyfrifol: Yfwch alcohol yn gyfrifol a byddwch yn ymwybodol o'ch ymddygiad mewn mannau cyhoeddus.

Rhoi Gwybod am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n cynnwys unrhyw beth sy'n achosi aflonyddwch, ofn neu ofid i eraill megis sŵn gormodol, fandaliaeth, meddwi'n gyhoeddus neu ymddygiad ymosodol. Os bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnoch chi, mae'n bwysig gwybod sut a ble i roi gwybod amdano.



Mewn Argyfwng (peryl yn y fan a'r lle): Ffoniwch 999.



Mewn Sefyllfa nad yw'n Argyfwng: Ffoniwch 101.

REPORT



Rhoi Gwybod Ar-lein: Defnyddiwch ffurflen adrodd swyddogol yr heddlu.



Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol arwain at ymyriadau gan yr awdurdodau lleol, gan gynnwys rhybuddion, dirwyon neu gamau gweithredu cyfreithiol mwy difrifol. Er enghraifft, gall cwynion mynych am sŵn arwain at gymryd eich cyfarpar sain oddi wrthy ch ac erlyniad o bosib.

DIOGELWCH

Mae byw yn Abertawe'n brofiad gwych, ond mae'n hanfodol cadw golwg ar eich diogelwch personol a diogelwch y cartref. Gall dilyn yr awgrymiadau syml hyn eich helpu i gadw'n ddiogel a diogelu'ch eiddo.

Diogelwch Personol a Diogelwch y Cartref ar gyfer Myfyrwyr



Ar y Stryd

- ✓ Cynlluniwch Ymlaen Llaw. Cynlluniwch sut byddwch chi'n cyrraedd adref cyn mynd allan. Gwiriwch amserau'r bysiau/trenau neu trefnwch gludiant.
- ✓ Cadwch at Ardaloedd Diogel. Cerddwch ar hyd strydoedd prysur sydd wedi'u goleuo'n dda a pheidiwch â chymryd ffordd fyrrach drwy aleau neu ardaloedd lle nad oes pobl.
- ✓ Byddwch yn Wyliaidwrus. Peidiwch â gwisgo clustffonau neu decstio, sy'n gallu eich gwneud yn llai ymwybodol.
- ✓ Ymddiriedwch yn eich greddfau. Os ydych chi'n teimlo'n anesmwyth, ewch tuag at ardal gyhoeddus neu grŵp o bobl.
- ✓ Cariwch larwm personol. Gall helpu i ddrysu darpar ymosodwr a rhoi amser i chi ddianc.



Ar Gludiant Cyhoeddus

- ✓ Arhoswch mewn ardaloedd wedi'u goleuo'n dda ac yn agos at bobl eraill.
- ✓ Ar y bws, eisteddwch yn agos at y gyrrwr. Ar y trê, peidiwch ag eistedd mewn cerbyd gwag.
- ✓ Cadwch eich tocyn yn barod yn eich llaw i osgoi dangos eich waled neu'ch eiddo gwerthfawr.



Defnyddio Taxis a Gwasanaethau Rhannu Liff

- ✓ Defnyddiwch daxis neu wasanaethau rhannu lifft trwyddedig bob amser.
- ✓ Cadarnhewch enw'r gyrrwr, gwneuthuriad y car a'r rhif cofrestru cyn mynd i mewn i'r car.
- ✓ Eisteddwch yn y cefn a pheidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol.



Ar Noson Allan

- ✓ Yfwch yn gyfrifol gan wybod pan fyddwch chi wedi cael digon.
- ✓ Peidiwch byth â gadael eich diod heb neb i gadw llygad arni na derbyn diodydd gan ddieithriad.
- ✓ Arhoswch gyda ffrindiau a gwnewch yn siŵr bod rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo yn gwybod ble rydych chi.
- ✓ Os oes angen help arnoch chi, defnyddiwch Bwynt Cymorth Abertawe neu'r Bws Diogelwch Myfyrwyr sydd ar waith yng nghanol y ddinas ar nos Fercher, nos Wener a nos Sadwrn.

Awgrymiadau am Ddiogelwch eich Cartref



Y Tu Mewn i'ch Cartref

- ✓ Cofiwch gloi'r drysau a'r ffenestri, hyd yn oed os ydych chi'n picio allan am funud yn unig.
- ✓ Gosodwch oleuadau sy'n ymateb i symudiad a defnyddiwch switshis amser i roi'r argraff bod rhywun gartref pan fyddwch chi i ffwrdd.
- ✓ Peidiwch â gadael eiddo gwerthfawr yn weladwy drwy ffenestri.



Ateb y Drws

- ✓ Defnyddiwch gadwyn neu dwll sbïo ar y drws i weld pwy sy'n curo.
- ✓ Gofynnwch am brawf adnabod os yw'r person yn honni cynrychioli cwmni neu sefydliad. Ffoniwch i gadarnhau pwy yw'r person gan ddefnyddio rhif o wefan swyddogol neu fil, nid y rhif ar ei brawf adnabod.



Os ydych chi'n Meddwl bod Tresmaswr yn y Tŷ

- ✓ Os ydych chi gartref ac yn clywed rhywun, ffoniwch yr heddlu - peidiwch â mynd i weld pwy sydd yno.
- ✓ Os ydych chi'n cyrraedd adref ac yn amau bod rhywun wedi torri i mewn, peidiwch â mynd i mewn. Ffoniwch yr heddlu ar unwaith.



Wrth Fynd i Ffwrdd

- ✓ Cofiwch gloi pob drws a ffenestr a gosodwch amserydd ar gyfer goleuadau neu'r radio.
- ✓ Peidiwch â rhannu cynlluniau teithio ar y cyfryngau cymdeithasol na gadael arwyddion amlwg fel post neu becynnau heb eu casglu.
- ✓ Gofynnwch i un o'r cymdogion gadw llygad ar eich eiddo.

Canllawiau Cyflym i Ddiogelu eich Eiddo

- ✓ Peidiwch â gadael eitemau gwerthfawr fel ffonau, gliniaduron neu waledi heb neb i gadw llygad arnynt mewn mannu cyhoeddus.
- ✓ Cadwch allwedi, waledi a ffonau mewn pocedi ar wahân.
- ✓ Defnyddiwch farciwr uwchfioled i ysgrifennu eich enw a'ch rhif adnabod myfyriwr ar eitemau gwerthfawr er mwyn eu hadnabod yn hawdd.



Drwy fod yn wiliadwrus a dilyn yr awgrymiadau hyn, gallwch fwynhau eich amser fel myfyriwr yn Abertawe gan gadw'ch hun a'ch eiddo'n ddiogel. Cofiwch, mae diogelwch yn gyfrifoldeb a rennir - byddwch yn wiliadwrus ar eich rhan eich hun ac ar ran eraill yn eich cymuned!

RHOI GWYBOD AM BROBLEMAU I'R HEDDLU A CHYNGOR ABERTAWWE

Fel un o breswylwyr Abertawe, mae adnoddau ar gael i chi roi gwybod am broblemau yn eich cymuned a'u datrys. Os oes pryder am ddiogelwch, cwyn am sŵn neu broblem am dai, bydd yr adran hon yn esbonio sut i fynd i'r afael â hi'n effeithiol.

Pryd i Gysylltu â'r Heddlu:



Sefyllfaoedd Brys (Ffoniwch 999):

- ✓ Bygythiadau yn y fan a'r lle i ddiogelwch personol
- ✓ Gweld trosedd sydd ar waith.
- ✓ Digwyddiadau difrifol fel lladrata, ymosodiad neu fandaliaeth.



Sefyllfaoedd nad ydynt yn Frys (Ffoniwch 101):

- ✓ Rhoi gwybod os oes gennych amheumon am ddefnyddio neu ddelio cyffuriau yn eich cymdogaeth
- ✓ Rhannu gwybodaeth am weithgarwch troseddol posib yn eich ardal
- ✓ Rhoi gwybod am eitem sydd wedi'i dwyn, difrod i eiddo neu anghydfod sifil



Rhoi Gwybod Ar-lein:

- ✓ Defnyddiwch wefan Heddlu De Cymru i roi gwybod am faterion nad ydynt yn frys fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, cwynion am sŵn neu eiddo wedi'i gollu.

[👉 Rhoi Gwybod i Heddlu De Cymru](#)

Pryd i Gysylltu â Chyngor Abertawe



Cwynion am Sŵn:

- ✓ Sŵn domestig - cerddoriaeth uchel, cŵn yn cyfarth, larymau'n canu
- ✓ Sŵn masnachol/diwydiannol - sŵn o safleoedd masnachol (e.e. siopau, tafarndai); ffatrioedd a safleoedd diwydiannol; sŵn adeiladu a dymchwel; larymau'n canu.
- ✓ Cerbydau - larymau ceir; a stereos ceir (pan fo'r cerbyd wedi'i barcio).

[👉 Rhoi Gwybod Ar-lein am Broblem Llygredd Sŵn](#)

☎ Os yw'n well gennych roi gwybod am y broblem dros y ffôn, gallwch chi ffonio 01792 635600

✉ Gallwch chi hefyd e-bostio pollution@swansea.gov.uk



Rhoi Gwybod am Faterion Gwastraff ac Ailgylchu:

Os oes gennych broblemau sy'n ymwneud â gwastraff, mae Cyngor Abertawe'n cynnig sawl ffordd o roi gwybod amdanynt a'u datrys:

✓ Gofyn am Ragor o Fagiau a Biniau Ailgylchu

- ◆ Defnyddiwch y tag ail-archebu y tu mewn i'r rholyn bagiau a'i atodi ar y diwrnod casglu.
- ◆ Gallwch chi eu casglu drwy fynd i gyflenwr lleol.
- ◆ [Cyflwynwch gais ar-lein.](#)

✓ Rhoi Gwybod am Gasgliadau wedi'u Colli

- ◆ Gwnewch yn siŵr bod bagiau wedi cael eu rhoi allan erbyn 6.00am, bod y cynnwys yn y bagiau cywir ac nad oedden nhw'n pwyso gormod.
- ◆ Arhoswch tan ar ôl 1.00pm ar y diwrnod casglu cyn rhoi gwybod.
- ◆ [Rhoi Gwybod Ar-lein.](#)

✓ Rhoi Gwybod am Dipio Anghyfreithlon a Sbwriel Stryd

- ◆ Rhowch y lleoliad, disgrifiad ac unrhyw fanylion (e.e. rhif cofrestru cerbyd os yw'n briodol).
- ◆ Mae tipio yn anghyfreithlon - rhowch wybod amdano ar unwaith.
- ◆ [Rhoi gwybod ar-lein.](#)

Awgrymiadau am roi gwybod yn effeithiol

✓ Byddwch yn Benodol: Rhowch gynifer o fanylion â phosib (e.e. amser, lleoliad disgrifiad o'r broblem).

✓ Byddwch yn Ddigyffro ac yn Gwrtais: Mae cyfathrebu clir yn helpu i ddatrys problemau'n gynt.

✓ Camau Dilynol: Gofynnwch am rif neu gyfeirnod achos i fonitro hynt eich adroddiad.



Drwy roi gwybod yn brydlon ac yn briodol am broblemau, gallwch chi gyfrannu at gymuned fwy diogel a hapus. Os ydych chi'n ansicr, gofynnwch am gyngor gan wasanaethau cymorth eich prifysgol am arweiniad pellach.

CLUDIANT CYNALIADWY

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ffyrdd cynaliadwy a chyfleus o deithio. Mae cludiant cyhoeddus, yn enwedig bysiau, yn chwarae rôl hollbwysig wrth gysylltu campysau, preswylfeydd myfyrwyr a'r ddinas.

Popeth am Fysiau: Eich Allwedd i Deithio o Fan i Fan



Mae Rhwydwaith Bysiau Prifysgol First Cymru wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr Abertawe, gan wasanaethu'r holl brif ardaloedd lle mae llety myfyrwyr gan deithio i'r ddau gyfeiriad.



Gwasanaethau yn ystod y dydd:

● Gwasanaeth 89

🔗 Campws y Bae → Gorsaf Fysiau Abertawe gan alw yn Student Roost, llety True Student, Gorsaf Drenau Abertawe a Coppergate.

● Gwasanaeth 90

🔗 Campws y Bae → Gorsaf Fysiau Abertawe, heibio Gorsaf Drenau Abertawe, llety True Student a Student Roost.

● Gwasanaeth 91

🔗 Campws Parc Singleton → Sgeti ac Uplands → Canol Dinas Abertawe (Ffordd y Brenin) → Campws y Bae.

● Gwasanaeth 92

🔗 Campws Parc Singleton → Gorsaf Fysiau Abertawe → Campws y Bae.



Gwasanaeth Nos:

● Gwasanaeth N92

🔗 Campws Parc Singleton → Gorsaf Fysiau Abertawe → Campws y Bae.

Travel Smart: Taliadau a Disgowntiau



Taliadau Digyswllt Tapio i mewn, Tapio Allan

Talwch â cherdyn neu ddyfais ddigyswllt - tapiwch i mewn wrth fynd ar y bws a thapio allan wrth ei adael.



Disgowntiau Teithio Myfyrwyr

FyNgherdynTeithio - Os ydych chi rhwng 16 a 21 oed, gallwch gael 30% oddi ar bris tocynnau bws. Cyflwynwch gais [yma](#).

Tocynnau Myfyrwyr First Cymru - Gall myfyrwyr arbed arian ar docynnau bws wythnosol, misol neu dymhorol.

Beiciau Prifysgol Abertawe - Sut Mae'n Gweithio:



Mae beicio yn ffordd gynaliadwy, fforddiadwy ac iach o deithio o fan i fan yn Abertawe. Os nad oes beic gennych, gallwch chi rentu un drwy gynllun Beiciau Prifysgol Abertawe.



Gorsafoedd Docio:

Mae beiciau ar gael mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys:

- ✓ Campws Parc Singleton
- ✓ Campws y Bae
- ✓ Parcio a Theithio Ffordd Fabian
- ✓ Knab Rock, y Mwmbwls
- ✓ Yr Orsaf Fysiau
- ✓ Neuadd y Ddinas
- ✓ Oystermouth, y Mwmbwls



Dychwelyd Eich Beic:

- ✓ Cofiwch ddychwelyd eich beic i orsaf ddocio swyddogol bob amser a dilyn y cyfarwyddiadau.
- ✓ Os ydych chi'n gadael y beic yn rhywle ar wahân i orsaf, gall fod yn rhaid i chi dalu ffi wasanaeth.



Sut i Gofrestru a Rhentu Beic

- 1 Lawrlwythwch ap nextbike (iOS/Android) a chofrestru.
- 2 Actifadwch eich cyfrif a chwblhau eich proffil.
- 3 Rhowch eich manylion talu (mae angen blaendal o £5 a gaiff ei gredydu i'ch cyfrif).
- 4 Cadarnhewch eich e-bost (defnyddiwch eich cyfeiriad @abertawe.ac.uk i gael disgowntiau aelodaeth myfyriwr).
- 5 Defnyddiwch yr ap i ddatgloi beic a bant â chi!



Os gwnaethoch chi gofrestru'n wreiddiol gan ddefnyddio e-bost personol, diweddarwch eich cyfrif gan nodi cyfeiriad @abertawe.ac.uk yn ap nextbike i elwa o brisiau i fyfyrwyr.



Prisiau a Disgowntiau Myfyriwr

- ✓ £10 y flwyddyn yn unig am aelodaeth flynyddol i fyfyrwyr Abertawe.
- ✓ Mae 30 munud gyntaf pob taith am ddim.
- ✓ Codir 50c am bob 20 munud ychwanegol.
- ✓ Dr Bike a Chofrestru Beic am ddim.

Dolenni defnyddiol:

- ➔ Tudalen UniBus First Cymru
- ➔ Grŵp Defnyddwyr Teithio
- ➔ Tudalennau Teithio'r Brifysgol
- ➔ Teithio Llesol



Os oes gennych ddiddordeb mewn dechrau beicio neu os hoffech chi ofyn cwestiwn i ni am unrhyw un o'n digwyddiadau neu ein gweithgareddau, e-bostiwch: travel@abertawe.ac.uk

HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU TENANT

Fel tenant, gall deall eich hawliau a'ch cyfrifoldebau helpu i sicrhau profiad rhentu hwylus a didrafferth. Dyma bopeth sydd angen i chi ei wybod am gyfrifoldebau eich landlord a'r hyn a ddisgwylir gennych chi.

Cyfrifoldebau eich Landlord



Contract Deiliadaeth

- ✓ Rhaid i'ch landlord ddarparu cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig (contract deiliadaeth).



Gwiriad Trwydded HMO

- ✓ Os ydych chi'n rhannu tŷ â thri neu fwy o denantiaid, mae'n bosib y bydd angen Trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO) ar eich eiddo, gan ddibynnu ar ei leoliad.
- ✓ Edrychwch ar gofrestr gyhoeddus Cyngor Abertawe i sicrhau bod eich eiddo wedi'i gofrestru'n gywir.
- 👉 Gallwch chi wirio yma: [Cofrestr HMO Cyngor Abertawe](#).
- ✓ Os nad oes trwydded gan eich eiddo, rhowch wybod i hph@abertawe.gov.uk.



Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw

- ✓ Mae eich landlord yn gyfrifol am atgyweirio pethau fel:
 - ◆ Boeleri diffygiol, problemau gyda gwres neu ddŵr poeth.
 - ◆ Dyfeisiau sydd wedi'u torri a gafodd eu cynnwys yn y cytundeb rhentu.
 - ◆ Difrod strwythurol, gollyngiadau, lleithder a dŵr yn treiddio.
- ✓ Rhowch wybod am waith atgyweirio yn ysgrifenedig bob amser drwy WhatsApp, e-bost neu lythyr.
- ✓ Os nad yw'r landlord yn ymateb, dylech chi uwchgyfeirio'r mater i hph@abertawe.gov.uk

Beth yw'r Disgwyliadau ohonoch chi fel Tenant?

- ✓ Datganiad o Ddealltwriaeth: Dilynwch delerau eich cytundeb tenantiaeth.
- ✓ Ailgylchu a Gwastraff: Cofiwch gael gwared ar wastraff yn gywir i osgoi dirwyon.
- ✓ Gofal am yr Eiddo a Diogelwch Tân: Cadwch yr eiddo mewn cyflwr da a dilynwch y rhagofalon tân.
- ✓ Ystyriaeth am eich Cymdogion: Cadwch lefelau sŵn yn rhesymol a byddwch yn ystyriol o'r rhai o'ch cwmpas.
- ✓ Atal Lleithder a Llwydni: Gwnewch yn siŵr eich bod yn awyru eich ystafell yn iawn a rhowch wybod am unrhyw broblemau gyda lleithder i'ch landlord.

Tri Pheth na Ddylai Tenantiaid Byth eu Gwneud

✗ Peidiwch â Gadael i Sbwriel Bentyrru

◆ Mae biniau sy'n gorlifo yn denu plâu fel llygod mawr ac yn creu peryglon iechyd.

✗ Peidiwch â Cheisio Datrys Problemau Trydanol eich hun.

◆ Gall gwifrau diffygiol a ffitiadau sydd wedi'u torri fod yn beryglus.

◆ Rhowch wybod i'r landlord amdanynt yn hytrach na cheisio eu trwsio eich hun.

✗ Peidiwch ag Esgeuluso'r Ailgylchu

◆ Mae gan Abertawe bolisi llym ar reoli gwastraff – defnyddiwch y bagiau ailgylchu am ddim i ddioli gwastraff yn gywir.

Diogelwch Tân

 Rhagofalon Tân

✓ Rhaid cadw drysau tân ar gau bob amser i atal tân a mwg rhag lledu.

✓ Dylai landlordiaid ddarparu larymau mwg, synwryddion gwres a chyfarpar ymladd tân mewn HMOs.

✓ Gwnewch yn siŵr bod y llwybrau dianc yn ddirwystr bob amser – peidiwch â rhwystro coridorau neu waelod grisiau.

 Os oes tân

✓ Ewch allan o'r adeilad ar unwaith – peidiwch ag aros i gasglu eiddo.

✓ Ffoniwch 999 a dilyn y rhagofalon diogelwch tân yn eich llety.



Drwy ddeall eich hawliau a'ch cyfrifoldebau, gallwch chi sicrhau profiad rhentu diogel, glân a chadarnhaol. Os oes angen cymorth arnoch chi, e-bostiwch: recycle@abertawe.gov.uk.

OPSIYNAU CYMORTH

Gall bywyd yn y brifysgol fod yn gyffrous ond yn her ar adegau. Os oes angen cymorth arnoch chi, mae gwasanaethau cyfrinachol am ddim ar gael i'ch helpu.

Os oes angen rhywun i wrando, cyngor ar iechyd meddwl neu arweiniad ar gadw'n ddiogel, mae help bob amser wrth law.

Cymorth sydd ar gael i Fyfirwyr



Cymorth ar-lein ddydd a nos – Togetherall

- ✓ Gall pob myfyriwr fanteisio ar Togetherall, cymuned ddienw a chefnogol sydd ar gael ar-lein am ddim.
- ✓ Gallwch chi sgwrsio â chlinigwyr hyfforddedig ddydd a nos a defnyddio offer hunangymorth i reoli straen, pryder ac iechyd meddwl.
- ✓ Defnyddiwch eich cyfeiriad e-bost yn y brifysgol i fewngofnodi a dechrau.

Cymorth ym Mhrifysgol Abertawe



Y Gwasanaeth Gwrando

- ✓ Gwasanaeth gwranddo cyfrinachol i fyfirwyr a staff.
- ✓ Gallwch chi siarad â rhywun heb gael eich beirniadu - does dim angen bod mewn argyfwng i gysylltu.



Y Tîm Lles

- ✓ Mae'r tîm yn darparu cymorth iechyd meddwl, gweithdai ac arweiniad i fyfirwyr.
- ✓ Mae help ar gael gyda straen, pryder ac anawsterau personol.



Diogelwch ar y Campws ac Ap SafeZone

- ✓ Mae swyddogion diogelwch ar gael ddydd a nos er eich lles a'ch diogelwch.
- ✓ Mewn argyfwng, ffoniwch 01792 604 271 neu defnyddiwch ap SafeZone i ofyn am help.

Cymorth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant



Cymorth Lles

- ✓ Os yw'n anodd i chi ymdopi, gallwch chi siarad ag arbenigwr lles am gymorth ymarferol, cyngor a mentora.



Canllawiau Cadw'n Ddiogel

- ✓ Darllenwch y canllawiau ar ddiogelwch personol ac iechyd meddwl.
- ✓ Dysgwch am gadw'n ddiogel mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan gynnwys nosweithiau allan a diogelwch ar-lein.

Gwasanaethau Cymorth Allanol

Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi, gallwch chi gysylltu â:

- 📞 Papyrus - gwasanaeth atal hunanladdiad ar gyfer pobl ifanc
- 📞 Mind - Cymorth iechyd meddwl
- 📞 C.A.L.M – Campaign Against Living Miserably
- 📞 Y Samariaid - Cymorth gwranddo ar gael ddydd a nos

Sut i Gael Cymorth

📍 Prifysgol Abertawe – Sganiwch y côd QR i gael mynediad at wasanaethau lles.



📍 Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – Sganiwch y côd QR am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i chi.



Tîm Cymuned

Mae'r Tîm Cymuned ym Mhrifysgol Abertawe yma i gefnogi myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Rydyn ni'n gweithio i hyrwyddo perthnasoedd cymunedol cadarnhaol, yn helpu gyda materion tai ac yn cynnig arweiniad ar ddiogelwch a lles. Gallwch chi gysylltu â ni am unrhyw beth - hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr a yw eich problem o fewn ein cylch gorchwyl neu os oes angen cymorth i wybod beth yw'r cam nesaf. Os na allwn helpu'n uniongyrchol, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael eich atgyfeirio at y gwasanaethau perthnasol.



community.campuslife@abertawe.ac.uk



Rydyn ni bob amser yn hapus i helpu - does dim cwestiwn sy'n rhy fach!



Cofiwch nad ydych chi ar eich pen eich hun - mae bob amser cymorth ar gael pan fydd ei angen arnoch chi.

EICH LLAIS

Gall symud i lety preifat fod yn gam cyffrous sy'n cynnig annibyniaeth a'r cyfle i fyw gyda ffrindiau neu gydbreswylwyr newydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnig heriau, o ddynwedd rhwng cydbreswylwyr a rhannu cyfrifoldebau i ddeall cytundebau rhentu a delio â landlordiaid. Yma, mae myfyrwyr Abertawe yn rhannu eu profiadau go iawn – gan gynnig cyngor, gwersi a ddysgwyd a phethau i gadw llygad amdanynt i'ch helpu i fyw mewn llety preifat yn hwylus.

Rhentu



Pethau byddai myfyrwyr wedi hoffi eu gwybod cyn rhentu.

- 💡 "Gwiriwch bopeth cyn llofnodi'r contract! Sylwais i ddim ar y lleithder yn fy ystafell pan gafodd ei dangos i mi a daeth hynny'n broblem fawr yn y gaeaf."
- 💡 "Gofynnwch am filiau - roedd mesurydd trydan yn ein tŷ ni – defnyddiwyd y credyd yn gyflym iawn ac roedd rhaid i ni ychwanegu ato drwy'r amser."
- 💡 "Tynnwch luniau o bopeth pan fyddwch chi'n symud i mewn. Ceisiodd ein landlord ni godi tâl arnon ni am ddifrod a oedd yno'n barod!"
- 💡 "Siaradwch â chyn-denantiaid os oes modd. Sylweddoloni ni'n rhy hwyr fod ein landlord yn un gwael am drwsio pethau."



Delio â Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod

- 👉 "Roedd ein landlord ni yn anwybyddu ein negeseuon e-bost am foeler oedd yn gollwng am wythnosau - yn y diwedd, gwnaethon ni roi gwybod i'r cyngor."
- 👍 "Roedd ein hasiantaeth osod yn dda iawn am atgyweiriadau, ond dim ond ar ôl i ni e-bostio yn lle ffonio."
- 👉 "Roedd llygod gyda ni a dywedodd ein landlord wrthon ni am brynu trapiau yn lle datrys y broblem."
- 💡 Gair i gall: Dylech chi bob amser roi gwybod am broblemau'n ysgrifenedig (e-bost neu WhatsApp) a chadw cofnod rhag ofn y bydd angen prawf arnoch chi nes ymlaen.



Blaendaliadau a Chostau Cudd

- ⚠️ "Roedd rhaid i ni frwydro i gael ein blaendal yn ôl. Gwnaethon nhw honni nad oedden ni'n glanhau digon, er bod gennyn ni dderbynebau gan wasanaeth glanhau!"
- ⚠️ "Byddwch yn ofalus o ffioedd gweinyddol - mae rhai asiantaethau'n codi tâl dim ond i adnewyddu eich contract."
- 💡 Gair i gall: Dylai eich blaendal fod wedi'i ddiogelu mewn cynllun sydd wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth. Os bydd eich landlord yn gwrthod ei ddychwelyd yn annheg, gallwch chi herio hynny.

Gair i Gall

- ✓ Gwiriwch y gwres a'r insiweiddio - mae rhai tai myfyrwyr yn rhewllyd yn y gaeaf!
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod Gair y larymau mwg a'r synwryddion carbon monocsid yn gweithio.
- ✓ Darllenwch y contract yn ofalus - mae rhai landlordiaid yn cynnwys cymalau annheg.

Byw gyda Chydbreswylwyr



Gosod Rheolau'r Tŷ yn Gynnar

💡 "Wnaethon ni ddim gosod unrhyw reolau ar y dechrau, ac erbyn yr ail fis, roedden ni'n dadlau am olchi llestri a sŵn. Byddai gosod disgwyliadau'n gynnar wedi helpu!"

💡 "Cytunwch ar rota glanhau a biniau o'r diwrnod cyntaf - fel arall gallech chi fod yn gwneud popeth eich hun!"

Canllawiau Call:

- ✔ Trefnwch gyfarfod tŷ yn gynnar i gytuno ar lanhau, biliau a chostau a rennir.
- ✔ Byddwch yn ystyriol o ofod personol – cnociwch cyn mynd i mewn i ystafelloedd a pheidiwch â bwyta bwyd eich cydbreswylwyr.
- ✔ Trafodwch westeion a lefelau sŵn, yn enwedig ar nosweithiau'r wythnos.



Rhannu Cyfrifoldebau Glanhau a Biliau

⚠ "Doedd un o'r cydbreswylwyr byth yn glanhau ar ei ôl ac roedd hynny'n achosi llawer o densiwn."

⚠ "Roedd rhaid i ni blagio pobl am daliadau biliau bob mis - byddai rhannu biliau'n gyfartal o'r dechrau wedi osgoi straen."

Canllawiau Call:

- 💖 Lluniwch rota glanhau fel bod pawb yn gwneud eu rhan deg.
- 💖 Defnyddiwch ap rhannu costau (fel Splitwise neu Monzo) i gadw llygad ar rent, biliau a chostau a rennir.
- 💖 Byddwch yn glir am gyflenwadau tŷ - penderfynwch bwy sy'n prynu pethau fel papur toiled a nwyddau glanhau.



Ymdrin ag Anghydfodau rhwng Cydbreswylwyr

💬 "Roedd gyda ni gydbreswilydd a fyddai'n treulio oriau yn yr ystafell ymolchi bob bore - roedd hynny'n gwneud traed moch o'n hamserlenni!"

💬 "Roedd rhywun yn gadael nodiadau goddefol-ymosodol drwy'r amser yn lle siarad â ni - roedd hynny'n gwneud pethau'n waeth!"

Sut i Ddelio â Phroblemau:

👉 Mae cyfathrebu'n uniongyrchol ac yn gynnar yn bwysig – peidiwch ag aros nes bod pethau'n troi'n rhwystredig.

🔊 Os oes tensiwn, trefnwch drafodaeth tŷ yn lle cwyno i'r lleill y tu ôl i'w cefnau.

📝 Os oes angen, cytunwch ar reolau'n ysgrifenedig fel na fydd camddealltwriaeth nes ymlaen.



Bod yn Gydbreswilydd Da

👥 "Y cydbreswylwyr gorau yn fy mhrofiad i oedd y rhai a oedd yn cyfathrebu'n agored, yn glanhau ar ôl eu hunain ac yn parchu gofod ei gilydd."

- ✔ Byddwch yn ystyriol o lefelau sŵn yn enwedig yn hwyr gyda'r nos.
- ✔ Talwch eich cyfran o'r biliau'n brydlon i osgoi straen i eraill.
- ✔ Os oes problem, trafodwch hi'n bwylllog yn lle gadael iddi waethygu.

RHESTR WIRIO SYMUD I

MEWN



Cyn symud:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r canllaw ailgylchu
- Gwiriwch y diwrnodau casglu sbwriel
- Gwiriwch a oes angen yswiriant ar gyfer eich eiddo.
- Darllenwch eich cytundeb tenantiaeth
- Ystyriwch bwy sydd angen gwybod eich cyfeiriad newydd (banc etc)
- Prynwch drwydded teledu
- Cofrestrwch eich cyfeiriad yn ystod y tymor yn MyUniHub
- Lluniwch gyllideb ar gyfer costau misol, e.e. biliau, rhent, siopa
- Lluniwch restr o gysylltiadau mewn argyfwng gan gynnwys eich landlord



Dewch i adnabod eich ardal leol:

- Chwiliwch am siop elusen leol – i roi eitemau diangen neu siopa am fargen.
- Gofynnwch ble mae'r siop agosaf i brynu bwyd a nwyddau
- Holwch am fentrau lleol a grwpiau cymunedol



Pan fyddwch chi'n symud i mewn:

- Cyflwynwch eich hun i'ch cymdogion newydd
- Cyflwynwch gais i gael eich eithrio o Dreth y Cyngor (os oes angen)
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae eich blaendal yn cael ei gadw
- Os ydych chi'n talu tâl ar gadw dros yr haf, gwiriwch a oes caniatâd gennych i aros yn yr eiddo
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl bethau uchod wedi'u gwarantu'n ysgrifenedig!
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy sy'n talu'r biliau
- Archwiliwch eich llety a rhoi gwybod am unrhyw anghysondebau. Tynnwch luniau!
- Trefnwch wifi ar gyfer y tŷ, nid yw hyn bob amser wedi ei gynnwys fel eitem safonol!
- Cyflwynwch ddarlleniadau'r mesurydd a chadw cofnod
- Gwiriwch amserlen y Rhwydwaith Unibus i gynllunio teithio i'r campws/oddi yno
- Cofrestrwch i bleidleisio a sicrhau bod gennych brawf adnabod dilys



Argraffwch y dudalen hon neu ei chadw fel sgrinlun ar eich ffôn i gael gafael arni'n gyflym - fel hyn, bydd wrth law bob amser fel y gallwch chi wirio beth arall sydd angen ei wneud!

SYLWADAU I GLOI – YMGARTREFU YN EICH CARTREF NEWYDD

Mae symud i lety preifat yn gam mawr ond gyda'r paratodau a'r cymorth iawn gall fod yn brofiad anhygoel. Byddwch yn gydbreswlydd da a dangos parch at eich cymdogion, cadwch yn ddiogel a mwynhewch fywyd myfyriwr yn Abertawe i'r eithaf!

Os bydd angen cyngor neu gymorth arnoch chi - am dai, materion cymunedol neu addasu i fywyd oddi ar y campws - mae help ar gael bob amser.

 Angen cymorth?

E-bostiwch:

 community.campuslife@abertawe.ac.uk

Rydyn ni yma i helpu – cysylltwch â ni unrhyw bryd!